# DY IECHYD DY DDYFODOL

## RHAGLEN FRECHU HPV

## PECYN CYMORTH CYFATHREBU YSGOLION

# DY IECHYD DY DDYFODOL

## RHAGLEN FRECHU HPV

Mae’r brechlyn HPV yn cael ei gynnig am ddim i bob bachgen a merch 12 i 13 oed (Blwyddyn 8).

Mae’r brechlyn HPV yn effeithiol iawn am leihau’r risg o gael HPV.

Gall HPV arwain at ganser y serfics, rhai canserau'r geg a'r gwddf, canser yr anws ac ardal yr organau cenhedlu, yn ogystal â dafadennau gwenerol.

Ers i’r brechlyn gael ei gyflwyno, bu gostyngiad mawr yn nifer y bobl ifanc sy’n cael cyflyrau sy’n gysylltiedig â HPV.

Mae ymchwil yn awgrymu, dros amser, y bydd y brechlyn HPV yn helpu i achub miloedd o fywydau yng ngwledydd Prydain, a **gall eich ysgol chi helpu.**

# BETH YW HPV?

## HPV

HPV yw'r enw byr ar dros 100 o feirysau o'r enw **Feirws Papiloma Dynol**. Mae'n gyffredin iawn, a bydd 8 ymhob 10 person yn cael eu heintio ar ryw adeg yn eu bywydau.

Fel arfer nid oes gan HPV **unrhyw symptomau**, a dyna pam ei fod mor hawdd ei drosglwyddo. Yn y rhan fwyaf o bobl mae'n clirio'n gyflym, ond os bydd yn parhau, gall achosi rhai mathau o ganser.

## PAM MAE'R BRECHLYN YN BWYSIG?

Mae'r brechlyn HPV yn cael ei gynnig i fechgyn a merched ym Mlwyddyn 8 i amddiffyn yn erbyn rhai mathau o ganser a heintiau.

Ers i'r brechlyn HPV gael ei gyflwyno'n eang yn 2008, mae lleihad o bron i 90% wedi bod yng **nghyfraddau canser ceg y groth** ymhlith menywod yn eu 20au.

## 90%

# SUT GALL YSGOLION HELPU

Mae cyflwyno rhaglenni imiwneiddio drwy ysgolion yn **hanfodol** er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn cael mynediad hawdd at frechlynnau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod nifer fawr yn cael y brechlyn, ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae ein hymchwil yn dangos bod pobl ifanc yn ymddiried yn y wybodaeth maen nhw'n ei chael drwy'r ysgol, ac felly bydd eich cymorth chi **yn cael effaith sylweddol**.

## FFYRDD Y GALL EICH YSGOL GEFNOGI'R RHAGLEN FRECHU

### 1. ANFON

dogfen Briffio HPV Iechyd Cyhoeddus Cymru i phennaeth Blwyddyn 8, cydweithwyr a staff perthnasol sy'n gweithio yn eich ysgol. Mae'n cynnwys mwy o wybodaeth am y rhaglen frechu HPV a gyflwynir mewn ysgolion ledled Cymru.

### 2. LAWRLWYTHO

FFILM
GAIR O GYNGOR O'R DYFODOL

FFILM
FFEIL FFEITHIAU HPV

ANIMEIDDIAD
BRECHLYN HPV


## FFYRDD Y GELLIR DEFNYDDIO'R FFILMIAU YN YR YSGOL

- Grwpiau cofrestru Blwyddyn 8
- Gwasanaethau (os nad yw eisoes wedi'i ddarparu gan wasanaeth nyrsio'r ysgol)
- Gwersi/maes dysgu iechyd a lles
- Drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebiadau yr ysgol

# 3.RHANNU

cynnwys a gwybodaeth o ymgyrch **Dy Iechyd, Dy Ddyfodol** i helpu i roi gwybod i blant a phobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr am raglen frechu HPV yr ysgol drwy'r **sianeli cyfryngau cymdeithasol neu e-bost.**

## GRAFFEG CYFRYNGAU CYMDEITHASOL




Yn ystod y tymor y bydd sesiwn frechu HPV wedi'i threfnu, gallwch **ddefnyddio'r neges dempled yma** ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost neu apiau dosbarth:

> "Mae ffurflenni cydsynio ar gyfer y brechlyn HPV yn cael eu hanfon at bob disgybl Blwyddyn 8 a'r rhai a allai fod wedi methu'r brechlyn HPV o'r blaen. Dysgwch ragor am sut y gall y brechlyn helpu i ddiogelu iechyd plant a phobl ifanc yn y dyfodol yma: LINK TO FILM/ASSET/GRAPHIC"

**Mae mwy o wybodaeth i blant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr ac ysgolion ar gael yma: www.icc.gig.cymru/brechlynHPV**

# GWYBODAETH I RIENI

Ar y tudalen yma, gallwch ffeindio mwy o wybodaeth am sut gall rhieni a gofalwyr helpu i amddiffyn iechyd eu plant yn y dyfodol:

**Mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r cyngor maen nhw'n ei gael gan eu rhieni yn fawr.**

Bydd trafod hyn gyda'ch plentyn yn helpu i sicrhau ei fod yn teimlo'n wybodus ac yn hyderus am y brechlyn.

## GWYLIO

ffilm Iechyd Cyhoeddus Cymru 'Gair o Gyngor o'r Dyfodol' a thrafod gyda'ch plentyn. (Mae'n llai na 2 funud o hyd!)

## PWYNTIAU SIARAD ALLWEDDOL

- Mae'r brechlyn HPV yn cael ei gynnig am ddim i bob bachgen a merch 12 i 13 oed (Blwyddyn 8).
- Cyn i sesiwn frechiad eich plentyn gael ei chynnal yn yr ysgol, byddwch yn derbyn ffurflen gydsyniad y bydd angen i chi ei chwblhau a'i dychwelyd. Gall fod yn fersiwn ddigidol neu bapur. Mae'n well cynnwys rhieni neu ofalwyr mewn penderfyniadau am gael y brechiad. Mewn rhai achosion pan nad yw'r ffurflen gydsynio wedi'i dychwelyd, efallai y bydd rhai pobl ifanc yn gallu cydsynio i'r brechiad eu hunain os ydynt yn deall yn iawn beth sy'n cael ei gynnig.
- Mae'r brechlyn HPV yn ffordd ddiogel ac effeithiol o atal rhai canserau a heintiau. Mae disgwyl y bydd y brechlyn yn arbed miloedd o fywydau bob blwyddyn yn y pen draw.
- Mae'r brechlyn HPV yn cael ei roi yn rhan uchaf y fraich.
- Bydd pobl ifanc sy'n methu'r brechlyn HPV yn yr ysgol yn cael cyfleoedd eraill i gael y brechlyn hyd at ddiwedd Blwyddyn 11. Gallant hefyd gysylltu â'u nyrs ysgol, tîm imiwneiddio neu feddyg teulu i drafod sut mae cael y brechlyn. Mae pobl ifanc yn parhau i fod yn gymwys i gael y brechlyn hyd at eu pen-blwydd yn 25*.

*Ar gyfer bechgyn, i'r rhai a anwyd ar neu ar ôl 1 Medi 2006 y mae hyn yn berthnasol.

# DY IECHYD DY DDYFODOL

## ADNODDAU I BLANT YM MLWYDDYN 8

### FIDEOS Y GELLIR EU LAWRLWYTHO

- Ffilm: Gair o Gyngor o'r Dyfodol
- Ffilm: Ffeil Ffeithiau HPV
- Animeiddiad: Brechlyn HPV

### GRAFFEG Y GELLIR EU LAWRLWYTHO

- Carousel: 3 pheth i'w wybod am HPV
- Carousel: 3 pheth i'w drafod gyda'ch plentyn am y brechlyn HPV
- Graffeg Cyfryngau Cymdeithasol (x3)
- Poster Brechlyn HPV

### GWEFANNAU

- www.icc.gig.cymru/brechlynHPV
- www.icc.gig.cymru/brechlynnau/PlantAPhoblIfanc
- www.instagram.com/publichealthwales
- www.tiktok.com/@publichealthwales
- www.facebook.com/IechydCyhoeddusCymru